



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Cylch Meithrin Gaerwen
Ysgol Esceifiog
Gaerwen
Ynys Môn
LL60 6DD**

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2015

gan

**Wil Williams
Arolygydd Cofnodol**

ar ran

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

Ⓜ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2015: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/03/2015

Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Gaerwen yn lleoliad meithrin cofrestredig sydd yn darparu addysg cyn-ysgol i blant pentref Gaerwen a'r ardal wledig o'i gwmpas. Mae'n cyfarfod mewn ystafell ddsbarth yn Ysgol Gynradd Esceifiog.

Mae'r lleoliad yn derbyn plant o bob gallu a chefnidir i'r sesiynau. Roedd ychydig o blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu'r lleoliad yn ystod yr arolygiad. Cymraeg yw prif iaith y cartref i oddeutu traean o'r plant.

Mae'r lleoliad yn darparu sesiynau o ddwy awr a hanner am bedwar bore'r wythnos ar gyfer plant dwy i bedair oed. Mae 11 o blant tair oed wedi'u cofrestru yn y lleoliad ac yn cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol.

Mae plant yn cael eu haddysgu gan arweinydd ag ymarferydd sydd wedi bod yn eu swydd ers Medi 2014. Maent wedi'u cymhwyso'n briodol ar gyfer addysgu'r blynyddoedd cynnar.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru yn Chwefror 2015 a chan Estyn ym Mawrth 2009.

Crynodeb

Perfformiad presennol y lleoliad	Da
Rhagolygon gwella'r lleoliad	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- bron pob plentyn yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu;
- y rhan fwyaf o blant yn cymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd yn gadarn mewn ystod o gyd-destunau;
- y rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i ddefnyddio Cymraeg;
- bron pob plentyn yn cyfranogi'n gadarnhaol mewn dysgu;
- profiadau dysgu yn bodloni anghenion pob plentyn yn llwyddiannus;
- addysgu ac asesu'n gyson dda;
- ansawdd y cymorth ac arweiniad a ddarperir i'r holl blant uchel ; a'r
- lleoliad yn gymuned gynhwysol.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'n dda oherwydd bod;

- gan yr arweinydd ddisgwyliadau uchel ar gyfer datblygu'r lleoliad;
- yr ymarferydd yn darparu cefnogaeth gref i'r pennaeth a'r plant;
- staff yn adnabod y lleoliad yn dda ac yn cymryd camau pedant i roi newid ar waith;
- hunan-arfarnu eisoes wedi arwain at welliannau mewn safonau a darpariaeth;
- ystod o bartneriaethau yn cyfrannu'n gryf at gyflawniadau a lles plant; a'r
- lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

Argymhellion

1. Sicrhau bod gan blant rôl weithredol ym mhrosesau hunanasesu.
2. Darparu amgylchedd ddysgu mwy ysgogol a diddorol yn yr ardal y tu allan.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Ac ystyried eu hoedran a'u man cychwyn ar fynediad i'r lleoliad, mae bron pob plentyn yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae llawer yn dwyn i gof ddysgu blaenorol yn dda ac yn wynebu profiadau dysgu newydd yn eiddgar gan ddatblygu'n dda tuag at fod yn ddysgwyr annibynnol. Gydag eithriadau prin, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ddysgwyr ymholgar a brwdfrydig sy'n fodlon mentro a gwneud camgymeriadau. Mae'r rhan fwyaf yn gweithio hyd eithaf eu gallu ac yn gwneud cynnydd priodol yn chwe maes dysgu'r Cyfnod Sylfaen.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i gymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws pob maes dysgu. Mae pob plentyn yn barod i siarad gyda chyfoedion ac oedolion cyfarwydd ac yn canolbwyntio'n dda wrth wrando'n astud ar eu hoff stori. Mae bron pob un yn dangos diddordeb brwd mewn llyfrau stori ac yn mwynhau eu cynnwys gyda neu heb oedolyn. Mae llawer o'r plant yn trin llyfr fel darllenwr gyda'r rhan fwyaf yn gallu rhestru geiriau sy'n cychwyn gyda llythyren benodol. Wrth iddynt ddosbarthu matiau bwyd yn ystod cyfnod byrbryd, mae mwyafrif y plant yn gallu adnabod enw eu hunain ac, ambell waith, enwau plant eraill yn ogystal. Wrth iddynt arbrofi gyda gwahanol gyfryngau yn yr ardal 'dwylo prysur,' gwna'r llawer o'r plant gynnydd priodol yn eu gallu i greu marciau i bwrpas.

O'r cyfnod y maent wedi dechrau yn y lleoliad, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd arwyddocaol yn eu dealltwriaeth a'u gallu i ddefnyddio'r Gymraeg.

Yn ystod eu gweithgareddau a'u chwarae dydd-i-ddydd, mae bron pob plentyn yn defnyddio eu medrau rhifedd gyda hyder a chywirdeb cynyddol. Maent yn ymuno â gweddill y grŵp yn frwdfrydig iawn wrth ganu rhigymau rhif neu wrth gyd-gyfrif faint o blant sy'n bresennol yn y dosbarth. Mae'r plant mwyafrif hyderus yn cyfrif hyd at 6 gwrthrych a thu hwnt, gyda chywirdeb priodol. Wrth chwarae rôl, mae'r rhan fwyaf yn arddangos ymwybyddiaeth briodol o bwrpas arian.

Gwna llawer o'r plant gynnydd da yn eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Maent yn bwydo cyfarwyddiadau i degan llawr gyda chywirdeb priodol ac yn defnyddio tabledi electronig y hyderus ar gyfer tynnu lluniau ac ymarfer ffurfio llythrennau.

Lles: Da

Mae agweddau'r holl blant tuag at gadw'n iach a diogel yn gadarnhaol iawn. Maent yn deall bod bwyta'n iachus, megis yn ystod byrbrydau, ac ymarfer corfforol rheolaidd yn neuadd yr ysgol a'r ardal y tu allan, yn llesol i'w hiechyd. Dywed unigolion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn y lleoliad a'u bod yn gwybod at bwy i droi os cânt eu haflonyddu'n gorfforol neu'n eiriol gan blant eraill.

Mae bron pob plentyn yn cyfranogi'n gadarnhaol mewn dysgu a'i fwynhau. Ag ystyried eu hoedran a'u hanghenion personol, mae bron pob plentyn yn ymddwyn mewn modd cyfrifol ac yn ystyriol o deimladau plant eraill. Yn ddiwahân, mae gan blant ymddiriedaeth gref yn y gofal a'r consyrn sydd gan oedolion trostynt.

Yn ystod sesiynau, mae bron pob plentyn yn ymagweddu'n gadarnhaol tuag at brofiadau dysgu. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt ddi-ddordeb yn y gweithgareddau sydd un ai wedi'u darparu ar eu cyfer neu'r rheini maent wedi'u dewis eu hunain. Mae'r plant mwyaf aeddfed yn dal ati nes gorffen y dasg sydd dan sylw.

Yn ystod sesiynau dan do ac yn yr awyr agored, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cydweithio'n gytûn. Maent wrth eu boddau yn ymgymryd â dyletswyddau 'helpwr heddiw' gyda phob un yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
--	-----------

Profiadau dysgu: Da

Mae profiadau dysgu diddorol ac ysgogol yn bodloni anghenion a diddordebau'r holl blant yn dda ac yn eu hannog i ddysgu'n effeithiol a gwneud cynnydd da ar draws pob maes dysgu. Mae'r profiadau dysgu wedi ei seilio ar gynlluniau cwricwlaidd manwl sy'n adlewyrchu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn gryf ac yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol plant. Mae ymarferwyr yn defnyddio'r amgylchedd dan do a'r tu allan yn ddychmygus i annog plant i arbrofi â phrofiadau newydd. Caiff plant gyfleoedd mynych i arwain eu dysgu eu hunain ac i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cyfathrebu, rhifedd, medrau meddwl a datrys problemau yn gydlynol ac wedi'u hymgorffori'n gadarn ym mhrofiadau dysgu plant.

Caiff plant rôl weithredol yng ngweithgareddau'r lleoliad ar gyfer ailgylchu deunyddiau ac arbed ynni. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o ddiwylliant, gwyliau a thraddodiadau Cymru yn llwyddiannus ac yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddysgu am eu rôl fel dinasyddion byd-eang.

Addysgu: Da

Mae gan ymarferwyr wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth drwyadl o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Maent yn disgwyl llawer gan blant o bob gallu ac yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd gwerthfawr iddynt fod yn weithredol yn eu dysgu. Trwy gydgyllunio manwl, llwydda'r ymarferwyr i greu cydbwysedd addas rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plentyn yn yr ardaloedd dysgu a'r tasgau ffocws sy'n cael eu harwain gan oedolion. Mae'r arfer o amrywio'r ffyrdd o drefnu'r dysgu, er enghraifft, drwy waith unigol neu weithgaredd grŵp, yn cynnal diddordeb plant ac yn sicrhau ymglymiad pob unigolyn i'r dasg dan sylw.

Mae ffocws clir i gymorth ac ymyrraeth ymarferwyr. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn addasu eu dulliau addysgu ar gyfer anghenion yr unigolyn. Mae ymarferwyr yn fodolau iaith priodol eu hunain ac yn defnyddio holi'n grefftus er mwyn herio syniadau plant a symud dysgu yn ei flaen.

Mae'r ymarferwyr yn asesu cynnydd plant yn rheolaidd ac yn gynhwysfawr ac yn cofnodi arsylwadau ac asesiadau'n ofalus i fesur cynnydd pob unigolyn trwy gydol ei amser yn y lleoliad. Caiff deilliannau asesiadau eu defnyddio'n effeithiol iawn gan y lleoliad i adnabod anghenion unigol plant ac i gynllunio gweithgareddau ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, nid oes gan blant rôl weithredol yn y broses asesu ac mae hyn yn cyfyngu ar ei effeithiolrwydd.

Trwy nosweithiau agored, sgyrsiau anffurfiol gydag ymarferwyr a thrwy dderbyn albwm o luniau eu plentyn ar waith yn yr ardaloedd dysgu, caiff rhieni wybodaeth ddiddorol a chyflawn am gynnydd eu plant yn ystod eu hamser yn y lleoliad.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r trefniadau effeithiol sydd gan y lleoliad ar gyfer hyrwyddo iechyd a lles yn cyfrannu'n arwyddocaol at ddatblygiad cyffredinol plant ac yn cefnogi eu dysgu'n dda. Mae'r lleoliad yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed iach. Mae'r profiad dyddiol a gaiff plant o gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn neuadd yr ysgol, yn cyfrannu'n gryf tuag at godi eu ffitrwydd.

Yn ystod eu hymwneud dyddiol â phlant, mae ymarferwyr yn pwysleisio'n gryf yr angen i bawb fod yn garedig tuag at ei gilydd, ac i fod yn onest a theg. Mae hyn yn help mawr i'r plant ddysgu gwahaniaethu rhwng yr hyn sy'n iawn a'r hyn sydd ddim yn iawn. Mae'r cyfleoedd rheolaidd i ymgymryd â chyfrifoldebau ac i wneud dewisiadau eu hunain ynghylch eu dysgu yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at ddatblygiad personol a chymdeithasol plant.

Mae trefniadau priodol ar gyfer ail-gylchu ac arbed gwastraff.

Mae'r amrywiaeth o strategaeth a gaiff eu defnyddio gan ymarferwyr ar gyfer hyrwyddo ymddygiad da yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ymagweddau plant ac ar eu gallu i fod yn fwy ystyriol o blant eraill o'u cwmpas.

Mae'r trefniadau sefydlu effeithiol yn helpu plant i ymgartrefu'n gyflym a didrafferth yn y lleoliad. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu arweiniad clir iddynt yn ystod sesiynau. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda ynghylch sut i gael mynediad at gymorth proffesiynol i blant a rhieni. Caiff anghenion dysgu plant eu nodi'n fanwl pan fyddant yn ymuno â'r lleoliad a bydd ymarferwyr yn gwneud yn siŵr bod yr anghenion hyn yn cael eu bodloni. Mae hyn yn gryfder.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn hawl cyfartal i'r holl feysydd dysgu a'r gweithgareddau ar ddarperir ar eu cyfer. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu agweddau goddefgar ac ar sicrhau bod plant ac aelodau staff yn rhydd o unrhyw aflonyddwch. Nodweddion amlwg iawn o'r lleoliad yw'r amgylchedd ddysgu ddiddorol a grëir a'r cyfleoedd cyson a gaiff plant i ddatblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol.

Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr sy'n meddu ar wybodaeth ac arbenigedd digonol i addysgu pob agwedd ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae cyflenwad da o

adnoddau o ansawdd da ym mhob maes dysgu, gan gynnwys TGCh. Maent yn cael eu gweddu'n ofalus i ddatblygiad ac anghenion dysgu pob unigolyn. Mae'r ystafell ddysgu o ansawdd da ac yn cael eu defnyddio'n helaeth.

Er bod yr ardal ddysgu y tu allan yn cael ei ddefnyddio'n ddyddiol gan y lleoliad, nid yw'n darparu amgylchedd digon ysgogol ar gyfer hyrwyddo dysgu plant.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Llwydda'r arweinydd i greu ethos yn y lleoliad lle mae plant, rhieni a staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r lleoliad ac mae'n gosod disgwiliadau uchel arni ei hun a'i chyd-ymarferydd. O ganlyniad, mae synnwyr cryf o ddiben yn y lleoliad sy'n hyrwyddo a chynnal gwelliannau. Mae'r modd y mae'r arweinydd a'r ymarferydd yn cyd-rannu gwerthoedd cytûn am ddysgu, ymddygiad a pherthynas, yn nodwedd gref sydd wedi arwain at welliannau sylweddol mewn safonau a darpariaeth.

Mae rheolaeth dydd-i-ddydd y lleoliad yn effeithiol gyda sesiynau'n rhedeg yn llyfn a phawb yn hollol sicr o'u rôl a'u cyfrifoldebau. Mae nodau a pholisïau clir sy'n canolbwyntio ar anghenion plant ac yn cael eu deall a'u gweithredu llawn.

Mae parodrwydd yr arweinydd a'r ymarferydd i ymgymryd â blaenoriaethau lleol a dulliau newydd o weithio yn nodwedd arbennig o gryf sydd wedi arwain at welliannau sylweddol mewn cynllunio cwricwlaidd ac ansawdd yr addysgu ac asesu.

Mae gan y pwyllgor rheoli wybodaeth dda am ddatblygiad y lleoliad ac mae'n cyflawni ei gyfrifoldebau'n gydwybodol. Mae gan swyddogion y pwyllgor weithdrefnau effeithiol ar gyfer rheoli a gwerthuso perfformiad staff.

Gwella ansawdd: Da

Mae hunan-arfarnu wedi gwreiddio'n gadarn yn niwylliant y lleoliad ac wedi bod yn offeryn allweddol ar gyfer codi safonau a gwella'r ddarpariaeth. Trwy hunan arfarnu parhaus, mae ymarferwyr yn gwybod yn dda am gryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w datblygu. Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn dadansoddi sefyllfa gyfredol y lleoliad yn briodol ac yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol ar gyfer pennu blaenoriaethau yn y cynllun datblygu. Mae strwythur clir yn y cynllun er mwyn gweithredu'r blaenoriaethau ac ar gyfer arfarnu eu heffaith ar safonau a darpariaeth.

Mae'r arweinydd yn gwerthfawrogi safbwyntiau rhieni ac yn darparu cyfleoedd cyson iddynt fynegi barn am y lleoliad. Mae'r lleoliad yn ymateb yn gadarnhaol i unrhyw sylwadau a wneir gan rieni unigol. Yn yr un modd, mae hefyd yn ymateb yn bwrpasol i gyngor ac argymhellion sy'n dilyn ymweliadau athrawes gefnogol yr awdurdod addysg.

Gall y lleoliad ddangos bod hunan-arfarnu eisoes wedi arwain at welliannau gweladwy mewn safonau, arweinyddiaeth a darpariaeth.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae ystod eang o weithgareddau partneriaeth yn cyfrannu'n gryf at gyflawniadau a lles plant. Mae'r pecyn gwybodaeth a ddsberthir i rieni ynghyd â'r 'llythyr thema', yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol iddynt am addysg eu plant ynghyd â pholisïau, gweithdrefnau a disgwyliadau'r lleoliad.

Mae'r lleoliad yn manteisio'n sylweddol ar y bartneriaeth agos sydd rhyngddi â'r ysgol gynradd. Mae athrawon Cyfnod Sylfaen yr ysgol yn cymryd diddordeb yng ngwaith y lleoliad ac yn barod iawn i rannu eu harbenigedd a'u hadnoddau dysgu gyda'r ymarferwyr. Mae neuadd yr ysgol ar gael i'r lleoliad am un sesiwn am ddau fore'r wythnos. Mae hyn yn cyfoethogi profiadau dysgu plant y lleoliad yn sylweddol.

Mae'r trefniadau pontio effeithiol sydd rhwng y lleoliad a'r ysgol yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n gyflym yn nosbarth y Cyfnod Sylfaen a bod dilyniant a pharhad yn eu profiadau dysgu.

Mae'r cydweithio agos sydd rhwng y lleoliad ag athrawes gynhaliol yr awdurdod lleol wedi cyfrannu'n sylweddol at wella ansawdd y ddarpariaeth a chodi safonau.

Rheoli adnoddau: Da

Mae'r lleoliad yn gymuned ddysgu gref sydd wedi sefydlu diwylliant cadarnhaol o gydweithio. Caiff aelodau staff eu cefnogi'n dda gan ddatblygiad proffesiynol parhaus sy'n sicrhau eu bod yn diweddarau eu gwybodaeth a'u medrau yn rheolaidd.

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Gwna'r arweinydd ddefnydd effeithiol o amser a phrofiad staff er mwyn sicrhau bod y gofal a'r gynhaliaeth sydd ar gael i blant o'r safon uchaf bosibl.

Mae trysorydd y pwyllgor rheoli yn cadw cofnod manwl o sefyllfa gyllidol y lleoliad ac yn gwneud yn siŵr bod gwariant yn cael ei reoli'n ofalus ac yn unol ag anghenion datblygu'r lleoliad. Mae penderfyniadau gwariant yn cael eu harfarnu'n ofalus i wneud yn siŵr eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar safonau cyflawniad, cynnydd a lles plant.

Ag ystyried y deilliannau da a chynnydd parhaus y plant, mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

Atodiad 1

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

Atodiad 2

Yr arolygydd cofnodol

Mr Wil Williams

Arolygydd Cofnodol

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Rhestr termau

AGGCC	Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru.
Athro ymgynghorol awdurdod lleol	Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed.
Y Cyfnod Sylfaen	Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed
Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)	Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned.
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)	Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau.
Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)	Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref.
Meysydd Dysgu	Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> • datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol • medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu • datblygiad mathemategol • datblygu'r Gymraeg • gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd • datblygiad corfforol • datblygiad creadigol
Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)	Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth.

Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)	Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012.
Mudiad Meithrin	Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.